

FFEDERASIWN CLYBIAU FFERMWYR IFANC CYMRU



Y CYNGOR
DYDD IAU 4 Mawrth 2021
'ZOOM'
7.00YH

COFNODION

CADEIRYDD: Miss Katie Davies

IS-GADEIRYDD: Miss Caryl Haf

PRESENNOL: Katie Davies (Cadeirydd y Cyngor); Caryl Haf (Is-gadeirydd y Cyngor); Katie Court (Cadeirydd yr Is-bwyllgor Cystadlaethau); Kathryn Jones (Cadeirydd yr Is-bwyllgor Cyllid a Rheoli); Niall Evans (Cadeirydd yr Is-bwyllgor Rhyngwladol); Aled Thomas (Cadeirydd yr Is-bwyllgor Digwyddiadau a Marchnata); Clare James (Cadeirydd yr Is-bwyllgor Materion Gwledig); Elin Rattray (Cadeirydd y Fforwm Ieuenctid); Carwyn Pugh ac Emma Rees (Brycheiniog); Iestyn Owen a Hefin Evans (Sir Gaerfyrddin); Esyllt Ellis Jones, Elin Calan a Bleddyn Davies (Ceredigion); Megan Jones a Gwenno Davies (Clwyd); Gwen Thomas a Meinir Owen (Eryri); Kate Thomas ac Elen Williams (Morgannwg); Abbie Williams (Gwent); Manon Williams (Meirionnydd); Bryony Wilson, Aled Rees a Sioned Morris (Maldwyn); Tania Hancock, Delun Evans a Sam Kurtz (Sir Benfro); John James a Matt Price (Maesyfed); Fflur Powell-Roberts a Rhys Richards (Ynys Môn); Iwan Meirion, Kate Miles, Dafydd Jones, Mared Jones, a Hedd Pugh (Aelodau Cyfetholedig).

HEFYD YN BRESENNOL: Nia Lloyd (Cyfarwyddwr CFFI Cymru); Teleri Thomas (Swyddog Marchnata a Chyfathrebiadau); Catrin James (Swyddog Datblygu'r Gymraeg); Siân Thomas (Swyddog Gweithrediadau); Claire Powell (Rheolwr Cyllid a Gweinyddu), Edna Jones (Cadeirydd Cymdeithas y Staff), Eleri Evans (Trefnydd Ffederasiwn Eryri); Owain Lewis (Trefnydd Ffederasiwn Sir Benfro) a Hefin Jones (Cyfieithydd).

C/42/2021

CROESO A CHYFLWYNIADAU

Wrth agor y cyfarfod, fe wnaeth Katie Davies groesawu pob aelod i gyfarfod ychwanegol o'r Cyngor.

Cyflwynwyd y cyfieithydd, Hefin Jones, a phrofwyd y system er budd pawb oedd yn dymuno'i defnyddio.

Hysbyswyd yr aelodau y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio at ddibenion cadw cofnodion.

Gofynnwyd i'r sawl oedd yn dymuno gofyn cwestiynau i'w nodi yn y blwch sgwrsio, neu droi eu microffon ymlaen i gyfleu eu safbwyntiau, gan nodi eu henw a'u rôl.

Oherwydd natur rithwir y cyfarfod, nodwyd y byddai Vevox yn cael ei ddefnyddio at ddibenion pleidleisio, a bod y ddolen ar gael ar wefan CFFI Cymru.

Croesawyd swyddogion FfCCFFI i'r cyfarfod a llongyfarchwyd hwy ar gael eu hethol yn ddiweddar.

Diolchwyd i Teleri Thomas am ei chyfraniad at CFFI Cymru, a hysbyswyd pawb y byddai'n gadael ei swydd y diwrnod wedyn. Hysbyswyd y Cyngor hefyd fod Nia Lloyd, Cyfarwyddwr CFFI Cymru, wedi ymddiswyddo ac y byddai'n gadael y sefydliad ymhen mis.

C/43/2021

YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Siân Healey (Brycheiniog); Anna Prysor (Meirionnydd); Michael Burley (Morgannwg) a Jayne Jones (Cyfetholedig).

C/44/2021

DATGAN BUDDIANT

Atgoffwyd aelodau'r pwyllgor fod angen iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau oedd ganddynt yn y materion oedd yn cael eu trafod.

C/45/2021

Y GRONFA ADFERIAD DIWYLLIANNOL – ADRODDIAD GAN Y GWEITHGOR

Fe wnaeth y Cadeirydd Katie Davies hysbysu aelodau'r Cyngor fod y gweithgor wedi cynnal dau gyfarfod, ac roedd yn cynnwys yr aelodau dilynol:

1 cynrychiolydd o bob un o ffederasiynau sirol Cymru

1 o aelodau cyfetholedig Cyngor CFFI Cymru;

Cadeirydd Cyngor CFFI Cymru;

Is-gadeirydd Cyngor CFFI Cymru;

Cadeirydd Is-bwyllgor Cyllid a Rheoli CFFI Cymru;

1 aelod o dîm swyddogion CFFI Cymru; a

Hyd at 3 aelod cyfetholedig (yn unol â'r hyn sy'n ofynnol ym marn y pwyllgor)

Roedd y gweithgor wedi cynnal dau gyfarfod yn y mis diwethaf, ar 17 a 26 Chwefror 2021, a chadeiriwyd y cyfarfodydd gan Katie Davies, cadeirydd CFFI Cymru.

Roedd manylion y cyllid a ddyfarnwyd i CFFI Cymru wedi'u hysbysu i aelodau'r gweithgor, ac ystyriwyd y meysydd dilynol;

Adolygiad o'r sefydliad a chostau gwireddu £15,000

Gweithgarwch arall i ddatblygu cynaliadwyedd a chydnerthedd £30,000

Gweithgarwch i gynorthwyo i ymgysylltu â'r gymuned a datblygu hynny - £30,000

Roedd aelodau'r gweithgor wedi trefnu beth fyddai'n fuddiol i'r sefydliad dan y penawdau hyn. Yn dilyn cadarnhad yn ail gyfarfod y gweithgor, nodwyd y byddai angen penodi contractwyr yn hytrach na chyflogi staff, oherwydd byddai angen i'r arian gael ei wario cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Gan ystyried hyn, fe wnaeth aelodau'r gweithgor gymeradwyo'r penderfyniadau dilynol:

- Penodi contractwr allanol (cwmni/unigolyn) i gynnal adolygiad o'r sefydliad, yn ogystal â chynllun adfer a fyddai'n cael ei weithredu gan y sefydliad ledled Cymru.

- Penodi contractwr allanol (cwmni/unigolyn) i gydweithio â ffederasiynau sirol a chlybiau'r CFFI, ynghyd â CFFI Cymru, i ddatblygu adnoddau a fydd ar gael i'w defnyddio gan y CFFI ledled y wlad, a wnaiff gynorthwyo i sicrhau cynaliadwyedd a chydnerthedd yn y dyfodol.
- Penodi contractwr allanol (cwmni/unigolyn) i gydweithio â ffederasiynau sirol a chlybiau, i fynd ati i ddatblygu ymgysylltu â'r gymuned yn y sefydliad. Byddai'r contractwr llwyddiannus yn ystyried a gweithredu prosiectau i gynorthwyo staff a swyddogion mewn perthynas â marchnata a chyfathrebu, ynghyd â datblygu prosiectau megis ymgyrch 'Yn ôl i'r CFFI' a rhaglen recriwtio a chadw.

Cynigwyd y dylai'r is-bwyllgor Cyllid a Rheoli ystyried manylion caffael y contractwyr, ac y dylai'r Cyngor wneud yr holl benderfyniadau terfynol.

Ystyriodd aelodau'r Cyngor waith y gweithgor cyn cymeradwyo'r gwaith fel y nodir uchod.

Gofynnwyd am awgrymiadau am contractwyr posibl ac awgrymodd Kate Miles enwau pobl a allai fod o ddiddordeb yn ei thyb hi.

Diolchwyd i aelodau'r gweithgor am eu cyfraniad at y ddau gyfarfod.

C/46/2021

EITEMAU AGENDA'R CYFARFOD NESAF A'R DYDDIAD

Nodwyd mai dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor fyddai dydd Iau 18 Mawrth 2021, am 7.00yh, trwy gyfrwng Zoom.

C/47/2021

UNRHYW FATERION ERAILL

Fe wnaeth Rachel Goldie, cadeirydd FfCCFFI, ddiolch i aelodau'r Cyngor am eu cefnogaeth yn yr etholiad diweddar a'r croeso oedd hi wedi'i gael yn y cyfarfod. Fe wnaeth Rachel hefyd ddymuno bob llwyddiant at y dyfodol i Nia Lloyd.

Nid oedd unrhyw faterion ychwanegol, felly diolchwyd i'r aelodau am eu cyfraniadau, a chyhoeddwyd fod y cyfarfod ar ben am 7.35yh.

Llofnod: _____ **Dyddiad:** _____